

# Oxfam Cymru

## Cymru sy'n Gofalu am Bobl a'r Blaned



*(L) Mae Arlene Cinco yn Ynysoedd Philippines yn berchennog siop ac yn fam i bedwar o blant. Mae wrth ei bodd yn treulio amser gyda'i phlant ac yn gwyllo'r teledu gyda nhw. Yn anaml y mae'n gallu dod o hyd i amser mor werthfawr i wneud hyn gan ei bod yn treulio'r diwrnod cyfan yn gweithio i ennill arian a gwneud yr holl waith gofal dros ei theulu. Cydnabyddiaeth y llun Jed Regala*

*(R) Mae Shakina Begum yn cerdded tuag at ei thŷ sydd dan ddŵr ar ôl seiclon Bulbul. Kolbari, Shamnagar, Bangladesh. Cydnabyddiaeth y llun Fabeha Monir/Oxfam*



## Gofalu am Bobl: Gofalu am y Blaned

### Galwadau allweddol Oxfam Cymru ar Senedd 2021

#### Economi Llesiant i Gymru

6

Rhoi 'llawr cymdeithasol' ar waith i ddiogelu anghenion sylfaenol, a 'nenfwd amgylcheddol' i wthio'r defnydd o adnoddau yng Nghymru fel eu bod o fewn ffiniau'r blaned.

Gweithio gyda Rhwydwaith Llywodraethau'r Economi Llesiant a sefydliadau rhyngwladol i gysoni fframweithiau cyfrifyddu a therminoleg 'y tu hwnt i'r cynnyrch domestig gros' sy'n gysylltiedig â chyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy.

Adrodd ar fetrigau llesiant a chynaliadwyedd sydd ag amllder ac amseroldeb uwch na'r cynnyrch domestig gros.

Ennyn ymgysylltiad pobl Cymru â sgwrs genedlaethol ar *Sut y gall Cymru fod yn gartref i bobl ffyniannus mewn gwlad lewyrchus, gan hefyd barchu llesiant pawb ac iechyd y blaned gyfan?*

#### Cymru Ofalgar

9

Blaenoriaethu buddsoddiad yn y sector gofal fel ei fod yn sylfaen carbon isel a chyfiawn o ran y rhywiau i'r economi llesiant.

Cydnabod gwerth gofal i'n llesiant cymdeithasol ac economaidd cyfunol trwy ddiwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel ei bod yn cynnwys 'Cymru ofalgar' yn nod llesiant.

Codi refeniw newydd i hybu buddsoddiad sylweddol yn y sector gofal er mwyn diogelu gweithwyr gofal cyflogedig rhag tlodi, lleddfu pwysau ar ofalwyr di-dâl, a chynnal y seilwaith ar gyfer gofalu.

Sicrhau bod Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar Ofalwyr yn canolbwyntio ar ei rôl strategol wrth symud hawliau gofalwyr yn eu blaen a chynllunio gwasanaethau cymorth ar gyfer gofalwyr di-dâl yn genedlaethol.

#### Cymru ac iddi Gyfiawnder Hinsoddol

11

Gosod targedau cenedlaethol seiliedig ar wyddoniaeth a thegwch i leihau allyriadau carbon sy'n deillio o ddefnydd yn ogystal ag o gynhyrchu, ac adrodd arnynt mewn modd amserol – o leiaf bob dwy flynedd.

Blaenoriaethu buddsoddiad yn y sector gofal iddo fod yn sylfaen carbon isel a chyfiawn o ran y rhywiau i'r economi llesiant.

Datblygu cynllun erbyn 2022 i ddarparu system fwyd sero-net a gweithredu camau i gyflawni hyn erbyn 2035.

#### System Fwyd Addas ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol

13

Penodi Comisiwn System Fwyd annibynnol, traws-sector ac iddo'r dasg o ddatblygu map ffordd i ddarparu 'System Fwyd Addas ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol' sy'n blaenoriaethu'r canlynol:

Bwyd i bawb: Cymru a fydd y genedl gyntaf i ddileu'r angen am fanciau bwyd erbyn 2025.

Bwyd ar gyfer iechyd y cyhoedd: Bydd 75% o'r llysiâu y mae Bwyta'n lach yn argymhell y dylid eu bwyta yn cael eu cynhyrchu'n gynaliadwy yng Nghymru ar gyfer Cymru erbyn 2030.

System fwyd sero-net: Datblygu cynllun erbyn 2022 i ddarparu system fwyd sero-net a gweithredu camau i gyflawni hyn erbyn 2035.

Ffermio ar gyfer natur a'r hinsawdd: Creu map ffordd erbyn 2022 i fabwysiadu egwyddorion amaethecolegol ar draws y system fwyd gyfan, a chyflawni hyn erbyn 2030.

Bwyd môr cynaliadwy: Pennu terfynau dalfa sy'n ei gwneud yn bosibl i stociau pysgod gael eu hadfer a'u cynnal yn uwch na lefelau biomas sy'n cyflawni'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf.

Swyddi a bywoliaethau cynaliadwy yn y sector bwyd: Bydd pawb sy'n ennill eu bywoliaeth yn y system fwyd yn cael o leiaf y cyflog byw neu enillion teg am eu gwaith, a dylai'r gwaith hwn fod yn rhydd o arferion ecsbloetiol, ac yn amrywiol, diddorol a grymusol.

## **Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang**

**15**

Cynyddu cyllideb Cymru ac Affrica, a buddsoddi ym Mhwyllgor Argyfyngau Cymru.

Ymgysylltu mewn modd gweithredol ag arbenigedd a gwybodaeth am gymunedau alltud sy'n byw yng Nghymru.

Cyflwyno Dangosydd Llesiant a charreg filltir i fesur dinasyddiaeth fyd-eang weithredol ledled Cymru, ac ymrwymo i ddarparu cyfleoedd dysgu gydol oes mewn dysgu byd-eang a dinasyddiaeth.

Gosod targedau cenedlaethol seiliedig ar wyddoniaeth a thegwch i leihau allyriadau carbon sy'n deillio o ddefnydd yn ogystal ag o gynhyrchu, ac adrodd arnynt mewn modd amserol – o leiaf bob dwy flynedd.

Blaenoriaethu hawliau dynol, cydraddoldeb ac asesiadau o effaith amgylcheddol cynlluniau buddsoddi cyfredol a rhai sy'n dod i'r amlwg, a buddsoddi mewn hyfforddiant ar rywedd, hawliau dynol a diogelu.

Adolygu Cynllun Cyflenwi'r Genedl Noddfa i gynnwys strategaeth ariannu glir, gwaith monitro a fframwaith gwerthuso.

Ymrwymo i chwarae rhan lawn yng nghynlluniau adsefydlu ffoaduriaid Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ynghyd â chefnogi cyfranogiad awdurdodau lleol Cymru yn y cynlluniau hyn.

## Cyflwyniad

Gweledigaeth Oxfam yw byd heb dlodi ynddo. Un lle rydym yn gofalu am bobl a'r blaned, ac yn cael ein gwasanaethu gan economi llesiant lle y mae anghenion sylfaenol pawb yn cael eu diwallu o fewn terfynau amgylcheddol diogel. Roeddem yn gwneud cynnydd, ond disgwylir i dlodi eithafol byd-eang godi yn 2020 am y tro cyntaf ers dros 20 mlynedd, a hynny am fod pandemig COVID-19 wedi dwysáu grymoedd gwrthdaro a newid yn yr hinsawdd, elfennau a oedd eisoes yn arafu cynnydd y gwaith o leihau tlodi.<sup>1</sup> Mae tlodi wedi cynyddu yn y Deyrnas Unedig yn ystod COVID-19 hefyd.<sup>2</sup>

O amgylch y byd, mae gwaith gofal am dâl a di-dâl yn parhau i gael ei danbriso a'i dan-wobrwyo, i raddau helaeth. Gall hyn gadw pobl, ac mae'r mwyafrif ohonynt yn fenywod, mewn cylch dieflig o dlodi incwm a thlodi amser, yn ogystal â'u heithrio o wasanaethau a seilwaith pwysig, elfen sy'n effeithio arnynt gydol eu hoes, yn ogystal ag ar y rhai y maent yn gofalu amdanynt. Mae yna orgyffwrdd dwfn rhwng tanbriso gofal ac anghydraddoldebau rhwng y rhywiau ac anghydraddoldebau economaidd, ac mae COVID-19 yn gwaethygu'r anghydraddoldeb hwn. Mae menywod ledled y byd yn ennill 23% yn llai na dynion, ac mae gan ddynion hefyd 50% yn fwy o asedau. Mae eithrio menywod o farchnadoedd llafur ffurfiol, ynghyd ag anghydraddoldebau ym maes gofal di-dâl, gwahanu sectoraidd, a thanbriso rhai galwedigaethau lle mae menywod yn cael eu gorgynrychioli, heb dâl annigonol ac yn cael eu diogelu leiaf, yn golygu bod menywod yn arbennig o agored i niwed pan fo yna argyfyngau. Pan fydd hyn oll yn rhyngblethu ag anghydraddoldebau o ran dosbarth, ac anghydraddoldebau hiliol, trefol a gwledig, mae'n golygu bod rhai grwpiau o fenywod hyd yn oed yn fwy agored i niwed. Yn gonglfaen i fynd i'r afael â thlodi yng Nghymru ac yn fyd-eang y mae rhoi gwerth ar ofal a buddsoddi ynddo. Mae gofaluwr cyflogedig a di-dâl ar flaen ein hymateb i COVID-19, ac maent yn eu rhoi eu hunain mewn perygl er mwyn ein diogelu i gyd a gofalu amdanom.

Er mwyn gofalu am bobl, rhaid i ni hefyd ofalu am y blaned. Ynghanol yr argyfyngau iechyd ac economaidd byd-eang, mae'r argyfyngau hinsawdd ac ecolegol yn parhau i gynyddu. Nid yw trychinebau sy'n ganlyniad i dywydd eithafol wedi dod i ben yn ystod pandemig COVID-19; mae seiclon Amphan yn India a Bangladesh a'r tanau gwyllt yn yr Unol Daleithiau yn ein hatgoffa'n rymus iawn fod y byd yn beryglus o agos at fynd y tu hwnt i derfyn 1.5°C Cytundeb Paris.<sup>3</sup> Ym mis Chwefror 2020, gwelsom lifogydd dinistriol a digyngsail mewn cymunedau yng Nghymru. Ni chafodd llawer o deuluoedd a busnesau yr effeithiwyd arnynt gyfle i gael eu cefn atynt cyn y pandemig.

Mae Cymru yn wynebu cyd-destun byd-eang o gythrwfl a newid cyflym. Mae'r pandemig yn dilyn degawd pan gafodd democratiaeth ei herio o ddifrif; rydym wedi gweld cynnydd mewn anoddefgarwch a chasineb, a cholli ffydd mewn sefydliadau ac arweinwyr democrataidd. Rydym wedi wynebu anghydraddoldeb eithafol a chynyddol, gwrthdaro cymhleth, gwahaniaethu ar sail rhyw a hil, ac argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth. Mae'r byd yn cael ei herio i ddod o hyd i atebion, a rhaid i Gymru chwarae ei rhan. Rydym ar groesffordd hanesyddol, a rhaid i ni ddal ar y cyfle unigryw hwn i newid llwybr. Rhaid i lywodraeth nesaf Cymru weithredu'n feiddgar i sicrhau bod Cymru'n genedl sy'n gofalu am bobl ac am y blaned. Ar y tudalennau canlynol rydym yn nodi ein galwadau i weithredu i bob plaid wleidyddol yng Nghymru eu mabwysiadu – mae'r heriau enfawr sy'n ein hwynebu yn gofyn am gydweithrediad sy'n mynd y tu hwnt i wleidyddiaeth plaid.

Er mwyn goresgyn tlodi a chreu cymdeithas gyfiawn i bawb, rhaid i ni herio'r sefyllfa sydd ohoni lle mae cyfoeth a phŵer wedi'u crynhoi yn nwylo'r ychydig. Mae anghydraddoldeb economaidd wedi mynd allan o reolaeth. Yn 2019, roedd gan filiwyddion y byd, sef dim ond 2,153 o bobl, fwy o gyfoeth na 4.6 biliwn o bobl.<sup>4</sup> Mae COVID-19 yn gwaethygu'r argyfwng anghydraddoldeb a ysgogwyd gan fodel economaidd sydd wedi caniatáu i rai o gorfforaethau mwyaf y byd wneud elw gormodol ar gyfer eu cyfranddalwyr. Amcangyfrifir bod 400 miliwn o swyddi wedi diflannu yn ystod y pandemig, gyda menywod yn cael eu gorgynrychioli mewn sectorau risg uchel;<sup>5,6</sup> eto i gyd, mae disgwyl i 32 o gwmnïau mwyaf proffidiol y byd wneud elw o \$109 biliwn yn fwy yn 2020 nag mewn blynyddoedd blaenorol.<sup>7</sup>

Rhaid i hyn newid. Rhaid i lywodraethau ledled y byd weithredu 'nawr i adeiladu economi llesiant byd-eang sy'n rhoi gwerth ar yr hyn sy'n bwysig i gymdeithas, yn hytrach na rhoi hwb i fynd ar drywydd diddiwedd o elw a chyfoeth. Yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2020, roedd incwm yr 20% cyfoethocaf o bobl y Deyrnas Unedig dros chwe gwaith yn uwch na'r 20% tlotaf, tra cafodd y 10% cyfoethocaf 50% yn fwy o incwm na'r 40% tlotaf.<sup>8</sup> Hyd yn oed cyn COVID-19, roedd bron chwarter pobl Cymru mewn tlodi (700,000 o bobl), ac yn byw bywydau ansicr ac ansefydlog. Roedd y risg i blant yn uwch gan fod tri o bob deg plentyn yn byw mewn tlodi.<sup>9</sup> Mae cyflog pobl Cymru yn is ledled pob sector o gymharu â phobl yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Mae cyfyngiadau symud COVID-19 yn debygol o fod wedi effeithio ddeng ngwaith yn fwy ar enillwyr isaf Cymru o gymharu â'r rhai ar y cyflogau uchaf.<sup>10</sup>

Erbyn diwedd 2020, gallai 12,000 o bobl ledled y byd fod wedi marw o newyn cysylltiedig â COVID-19, sef mwy nag a fydd, o bosibl, wedi marw o'r afiechyd ei hun.<sup>11</sup> Y pandemig yw ei diwedd hi i filiynau o bobl sydd eisoes yng nghanol trafferthion oherwydd effeithiau gwrthdaro, newid yn yr hinsawdd ac anghydraddoldeb, ac effeithiau system fwyd doredig sydd wedi peri bod miliynau o gynhyrchwyr a gweithwyr bwyd bellach yn dlawd.

Yng Nghymru, mae nifer y bobl sy'n gofyn am gymorth bwyd brys yn amlygu'r frwydr enbyd, feunyddiol y mae llawer o bobl yn ei hwynebu er mwyn gallu rhoi pryd o fwyd ar y bwrdd. Mae'r hen ofnau y byddai banciau bwyd yn dod yn elfen sefydliadol yng nghymdeithas Cymru bellach yn realiti. Mae data banciau bwyd Ymddiriedolaeth Trussell ar gyfer wythnosau cyntaf cyfyngiadau symud COVID-19 (30 Mawrth-3 Mai 2020), a'r cyfnod cyfatebol y llynedd (1 Ebrill-5 Mai 2019), yn dangos cynnydd o 89% yn nifer y bobl a gafodd eu bwydo yng Nghymru, a chynnydd o 101% yn nifer y plant a gafodd eu bwydo.<sup>12</sup>

A ninnau'n genedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, rhaid i Gymru barhau i chwarae ei rhan mewn datblygu rhyngwladol, heb adael neb ar ôl. Mae Swyddfa Cydlynu Materion Dyngarol y Cenhedloedd Unedig yn rhagweld y bydd ar 235 miliwn o bobl angen cymorth a diogelwch dyngarol yn 2021 (cynnydd o bron 40% o gymharu â 2020).<sup>13</sup> Gyda chyllideb Cymorth Datblygu Tramor y Deyrnas Unedig yn crebachu,<sup>14</sup> mae'n hanfodol bod Cymru, a hithau'n genedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, yn gweithredu. Rhaid i ni barhau i feithrin ac adeiladu dinasyddiaeth fyd-eang a chydysafiad ymhlith pawb. Rhaid i Gymru adeiladu ar y dyhead i ddod yn Genedl Noddfa i ffoaduriaid sy'n ceisio ailadeiladu eu bywydau mewn man diogel.

Mae COVID-19 wedi rhoi cyfle i ni i gyd fyfyrto ar yr hyn sy'n bwysig. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno ein gweledigaeth y gall Cymru fod yn gartref i bobl ffyniannus mewn gwlad lewyrchus, gan barchu llesiant pawb ac iechyd y blaned gyfan.

Mae ein galwadau polisi yn seiliedig ar dystiolaeth a phrofiadau a grynhowyd trwy ein gwaith yng Nghymru, arbenigedd ein partneriaid a gwaith Oxfam yn fyd-eang. Rhaid i lywodraeth nesaf Cymru weithredu'n feiddgar i sicrhau bod Cymru'n genedl sy'n parchu ac yn gofalu am bobl ac am y blaned, ac yn rhoi gwerth arnynt. Ni allwn fethu yn hyn o beth.

## 1. Economi Llesiant i Gymru

**Rydym am i Gymru fod yn wlad lle mae gan bawb safon byw gweddus o fewn terfynau amgylcheddol ein planed.**

Mae'r rhain yn amseroedd torcalonnus. Mae dros 1.5 miliwn o bobl wedi marw o COVID-19.<sup>15</sup> Amcangyfrifir bod 495 miliwn o bobl, a menywod mewn modd anghymesur, wedi colli eu swyddi.<sup>16</sup> Gallai hyd at hanner biliwn o bobl gael eu gwthio i dlodi erbyn i'r pandemig ddod i ben.<sup>17</sup> Yng Nghymru rydym yn wynebu argyfwng swyddi ôl-bandemig, gydag amcangyfrif o 250,000 o swyddi mewn 'sectorau sy'n cau', a menywod mewn risg anghymesur.<sup>18</sup> Mae menywod Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig deirgwaith yn fwy tebygol o fod mewn gwaith ansicr, ac yn fwy tebygol o fod mewn swyddi ar gyflog isel, gan olygu eu bod eisoes yn profi trafferthion ariannol.<sup>19</sup>

Rydym mewn man tyngedfennol. Mae gennym ddewis rhwng dychwelyd i 'fusnes fel arfer' neu ddysgu o'r foment hon i ddechrau eto ac adeiladu economi decach a mwy cynaliadwy. Mae'r argyfwng cyfredol wedi chwalu llawer o'n rhagdybiaethau canolog. Mae wedi darlunio'r dynged yr ydym i gyd yn ei rhannu; wedi amlygu pa mor ryng-gysylltiedig mewn gwirionedd yw ein hiechyd economaidd, meddyliol a chorfforol; wedi dangos pwy yw'r gweithwyr hanfodol go iawn; wedi cadarnhau'r angen am lywodraethau effeithiol ar bob lefel; ac wedi tynnu sylw at sail fregus, gul ac ecsbloetiol ein heconomi, sydd, yn llawer rhy aml, yn gweithio er anfantais i fenywod a'r gymuned BAME.

*'Dyma gyfle i fynd i'r afael â'r normau a'r cymhellion toredig sydd wrth wraidd ein model cyfredol o gyfalafiaeth, a gwneud diwygiadau sylweddol. Os na wnawn ni, bydd risgiau a gwendidau systemig yn parhau i gronni, gan olygu y bydd siociau yn y dyfodol yn fwy tebygol ac yn fwy peryglus.'* Cyngor Busnes y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy, Mai 2020<sup>20</sup>

Er gwaethaf y ffaith bod pum mlynedd wedi mynd heibio ers deddfu'r ddeddf arloesol, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)<sup>21</sup>, a ddaeth â chylch gweithredu ac adrodd cyntaf y Ddeddf i ben, mae ein systemau'n parhau i fethu sicrhau llesiant dynol ac ecolegol. Mewn economi llesiant, dylai'r ymatebion fod yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn anelu at ddiogelu'r amgylchedd a'i adfywio, ac yn gadarnhaol a hirdymor. Mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi ymuno â Rhwydwaith Llywodraethau'r Economi Llesiant<sup>22</sup> yn gam cadarnhaol ymlaen. Rydym yn falch o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac o'r ffaith mai Cymru yw'r genedl gyntaf yn y byd i roi diogelu cenedlaethau'r dyfodol a'u hatal rhag niwed mewn cyfraith. Fodd bynnag, mae'n rhaid gwneud mwy i wireddu potensial sylweddol y Ddeddf, i sicrhau cydymffurfedd ac atebolrwydd, ac i annog mentrau lleol ar sail ei nodau a'i gwerthoedd. Trwy Rwydwaith Llywodraethau'r Economi Llesiant, rhaid i lywodraeth nesaf Cymru weithio gyda chenhedloedd eraill i rannu gwybodaeth o ran gwrthweithio'r naratif diffygiol 'mae pob twf yn dda', a chysoni'r gormodedd o fesurau llwyddiant economaidd 'y tu hwnt i'r cynnyrch domestig gros'.

Mae ein hadroddiad Toesen Cymru 2020 yn nodi 'llawr cymdeithasol' na ddylai unrhyw un yng Nghymru, yn ein barn ni, ddisgyn oddi tano.<sup>23</sup> Mae'r dystiolaeth a ddygwyd ynghyd yn yr adroddiad yn paentio darlun llwm. Hyd yn oed cyn COVID-19, roedd bron chwarter aelwydydd Cymru yn byw mewn tldi cymharol, yn seiliedig ar incwm, ac mae yna hefyd gyswllt rhwng hyn a lefelau is o ddisgwyliad oes a chyflawniad addysgol, a chyfran uwch o'r incwm gwario yn cael ei ddefnyddio i dalu am gostau tai. Er nad yw dangosyddion eraill a ystyrir yn yr adroddiad yn rhoi ystyriaeth i ddadgyfuno yn ôl statws economaidd-gymdeithasol, mae'n anochel y bydd y rhannau mwyaf difreintiedig o boblogaeth Cymru yn profi lefelau uwch o gysylltedd gwael, ac yn dioddef oherwydd troseddau, tldi tanwydd, unigrwydd, newyn, amgylchedd lleol gwael ac ymddieithrio dinesig. Mae i'r methiannau cymdeithasol hyn gyswllt cymhleth a manwl â'r broblem anghydraddoldeb hirdymor a systemig. Mae COVID-19 a'r ymateb iddo yn ehangu'r anghydraddoldebau cyfredol trwy leihau'r incymau a chynyddu'r risgiau mewn modd anghymesur yn achos rhai

grwpiau o bobl, yn enwedig y rheiny sydd eisoes yn byw mewn tlodi, menywod a phobl Dduon, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig.<sup>24</sup> Mae angen i ni fynd ati ar frys i gryfhau ein rhwyd diogelwch cymdeithasol a darparu buddsoddiad parhaus yn y seilwaith cymdeithasol y mae ein bywydau yn dibynnu arno, er enghraifft trwy ddarparu gofal cymdeithasol cynhwysfawr i oedolion a buddsoddi mewn dewisiadau amgen rhad ac am ddim a fforddiadwy yn lle teithio mewn ceir preifat.<sup>25</sup>

Mae'r Doesen hefyd yn taflu goleuni ar ddirywiad ein hecosystemau lleol a byd-eang. Rydym yn byw ar blaned fregus sydd dan straen cynyddol, a hynny i'r graddau ein bod yn tresmasu ar ffiniau planedol. Ni all hyn barhau. Er y gwelwyd gwelliannau calonogol o ran teneuo'r osôn ac yn lefel gyffredinol ansawdd yr aer ledled Cymru (wedi dweud hynny, mae'r lefel yn debygol o fod yn uwch na'r terfyn uchaf a argymhellir mewn rhai ardaloedd trefol), mae'r darlun ymhell o fod yn un cadarnhaol mewn parthau amgylcheddol eraill. Yn nwy o'r ffiniau planedol y gellir eu lleihau i lefel y Deyrnas Unedig neu Gymru – newid yn yr hinsawdd a newid defnydd tir – rydym nid yn unig yn methu, ond yn methu mewn modd amlwg iawn. Yn achos newid yn yr hinsawdd, mae terfynau allyriadau'r ffiniau planedol yng Nghymru yn uwch na 455%, ac yn achos newid defnydd tir, mae ffigur y Deyrnas Unedig yn 200%. Rydym hefyd yn wynebu argyfwng ecolegol, gydag un o bob chwe rhywogaeth yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu.

Os yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn mynd i fod yn effeithiol, yna mae'n rhaid i ni wthio ffiniau'r Ddeddf ymhellach i greu economi llesiant i Gymru. Rhaid i ni i gyd fod yn rhan o'r gwaith o ysbrydoli cymdeithas sifil i weithredu a herio'r llywodraeth i wireddu'r cyfleoedd sydd gan y ddeddf hon i ailadeiladu economi yng Nghymru sy'n gweithio ar gyfer pobl a'r blaned. Rhaid i arweinwyr gwleidyddol yng Nghymru fod yn ddewr a grymuso pobl Cymru i berchnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel 'deddf y bobl', a hynny trwy feithrin ymwybyddiaeth a chymryd rhan mewn sgwrs sy'n gwrando. Rhaid i'r sgwrs hon ddysgu o'r profiadau a'r ymateb i COVID-19, gwella a chryfhau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a chrynhai cyfoeth ac ehangder profiad pobl yng Nghymru o ran y modd i fynd i'r afael â'r heriau lluosog sy'n ein hwynebu. *Sut y gall Cymru fod yn gartref i bobl ffyniannus mewn gwlad lewyrchus, gan hefyd barchu llesiant pawb ac iechyd y blaned gyfan?*<sup>26</sup> Bydd hyn yn helpu i lywio camau gweithredu trawsnewidiol a chynhwysol. Mae yna gefnogaeth gyhoeddus gref i adeiladu economi llesiant ofalgar, gyda 68% o'r bobl yn y Deyrnas Unedig yn dweud y dylid defnyddio llesiant i fesur llwyddiant polisi economaidd.<sup>27</sup>

Rhaid i raglenni a pholisïau seiliedig ar dystiolaeth ac iddynt y nod o fynd i'r afael â thlodi ystyried realiti bywyd o dan y llinell dlodi, gan adlewyrchu lleisiau nas clywir yn aml er mwyn darparu polisïau a gwasanaethau sy'n mynd i'r afael â'r materion a'r rhwystrau gwirioneddol y mae pobl yn eu hwynebu. Mae ein gwaith gyda phartneriaid ledled Cymru, gan gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau<sup>28</sup>, wedi dangos bod y Dull Bywoliaethau Cynaliadwy yn gweithio gydag unigolion i'w helpu i ddeall ac adeiladu eu sylfaen asedau (cymdeithasol, corfforol, cyhoeddus, dynol ac ariannol)<sup>29</sup> fel ei bod yn arwain at newidiadau trawsnewidiol yn eu bywoliaeth, gan hefyd gynhyrchu enillion cymdeithasol sylweddol ar fuddsoddiad ariannol.<sup>30</sup>

***'O ystyried bod y rhai sy'n ymwneud â darparu rhwyd ddiogelwch nawdd cymdeithasol yn cynnwys y llywodraeth, awdurdodau lleol ac elusennau, byddai'n ddefnyddiol pe byddai pawb sy'n rhan o'r swyddi 'rheng flaen' hyn yn mabwysiadu'r Dull Bywoliaethau Cynaliadwy. Mewn iteriad o'r gwaith hwn yn y dyfodol, dylid adolygu'r pecyn cymorth i sicrhau ei fod yn gweddu i sesiynau cyngor ar-lein/rhithwir sy'n prysur ddod yn norm yn ystod y pandemig.'*** Rhanddeiliad i'r Adran Gwaith a Phensiynau

Mae'n galonogol bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddefnyddio'r dull hwn yn y system budd-daliadau datganoledig, a chredwn y bydd yn offeryn defnyddiol i helpu i 'godi' pobl uwchben llawr cymdeithasol y Doesen. Anogwn lywodraeth nesaf Cymru i weithredu yn yr un modd. Yn ogystal â bod yn offeryn mapio asedau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, mae'n bosibl y gallai'r egwyddorion y tu ôl i'r CLG gael eu defnyddio ar lefel gymunedol, neu hyd yn oed ar lefel genedlaethol, i helpu i ddatblygu ac adeiladu'r sylfaen asedau yng Nghymru.

**Mae Oxfam Cymru yn galw ar lywodraeth nesaf Cymru i ofalu am bobl a'r blaned trwy:**

- Rhoi 'llawr cymdeithasol' ar waith i ddiogelu anghenion sylfaenol, gan sicrhau bod gan bawb yng Nghymru o leiaf fwyd, lloches a chynhesrwydd digonol.
- Rhoi 'nenfwd amgylcheddol' ar waith i wthio'r defnydd o adnoddau yng Nghymru o fewn ffiniau planedol.
- Gweithio gyda Rhwydwaith Llywodraethau'r Economi Llesiant a sefydliadau rhyngwladol i gysoni fframweithiau cyfrifyddu a therminoleg 'y tu hwnt i'r cynnyrch domestig gros' sy'n gysylltiedig â chyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy.
- Adrodd ar fetrigau llesiant a chynaliadwyedd sydd ag amllder ac amseroldeb uwch na'r cynnyrch domestig gros.<sup>31</sup>
- Cynnwys pobl Cymru mewn sgwrs genedlaethol ar *Sut y gall Cymru fod yn gartref i bobl ffyniannus mewn gwlad lewyrchus, gan hefyd barchu llesiant pawb ac iechyd y blaned gyfan?* i ddysgu'r gwersi o COVID-19, llywio gweithredu trawsnewidiol a chynhwysol, a meithrin dinasyddiaeth fyd-eang.



## 2. Cymru Ofalgar

### **Rydym am i Gymru fod yn wlad sy'n rhoi gwerth ar ofal ac yn buddsoddi ynddo fel ei fod yn sylfaen carbon isel a chyfiawn o ran y rhywiau i'r economi llesiant.**

Mae ein heconomi fyd-eang gyfredol yn cronni cyfoeth helaeth i ddwylo'r ychydig gyfoethog, a hynny'n rhannol trwy ymelwa ar lafur di-dâl miliynau o bobl. Mae menywod a merched yn cyflawni 12.5 biliwn awr o ofal di-dâl bob dydd, sy'n werth o leiaf \$10.8 triliwn y flwyddyn i'r economi fyd-eang.<sup>32</sup> Gydag ychydig neu ddim amser i gael addysg, ennill cyflog teilwng neu leisio barn ar y modd y mae ein cymdeithasau'n cael eu rhedeg, mae gofawyr, yn rhy aml, yn cael eu caethiwo ar waelod yr economi, ac yn anweledig yn fynych yn nhermau cynnydd economaidd.<sup>33</sup>

Gofal yw'r union lud sy'n dal ein cymdeithas ynghyd. Gofalu amdanom ein gilydd sydd wedi ein galluogi i oroesi trwy bandemig COVID-19. Mae gofal yn hanfodol i bob un ohonom gan ei fod yn darparu'r sylfaen i'r economi. Ond mae'n anweledig i raddau helaeth mewn polisïau cyhoeddus a mesurau economaidd. Mae'n cael ei danbriso mewn modd systematig. Mae'n bryd i hyn newid, ac mae'n bryd i ni gydnabod bod gofalu yng Nghymru yn hanfodol i'n llesiant. 'Nawr yw'r amser i edrych unwaith eto ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan sicrhau ei bod yn adlewyrchu profiadau o COVID-19 ac yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol gofal am dâl a di-dâl, a hynny trwy gyflwyno nod llesiant ychwanegol – '*Cymru ofalgar*' a mesur cynnydd tuag at y nod hwn gyda dangosyddion llesiant a cherrig milltir.

Rhaid i fuddsoddi mewn gofal a rhoi gwerth ar y rhai sy'n ei ddarparu fod yn sylfaen i economi llesiant yng Nghymru. Mae gofawyr cyflogedig a di-dâl ar flaen ein hymateb i COVID-19, yn sicrhau bod ein hysbytai, ein haelwydydd a'n cartrefi gofal yn gweithredu, ac maent yn eu rhoi eu hunain mewn perygl er mwyn ein diogelu i gyd a gofalu amdanom. Ac eto, os ydych yn ofalwr yng Nghymru, rydych yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tloidi. Amcangyfrifir bod 96% o'r holl ofal yng Nghymru yn cael ei ddarparu gan ofalwyr di-dâl, gyda llawer ohonynt yn brwydro a chymorth pellach yn ofynnol arnynt.<sup>34</sup> Mae pleidlais a gynhaliwyd gan YouGov ar ran Oxfam Cymru hefyd yn dangos bod 68% o oedolion yng Nghymru yn credu nad yw Llywodraeth Cymru yn rhoi gwerth digon uchel ar waith gofalu.<sup>35</sup>

Mae Oxfam yn credu bod gwaith gofal yn hanfodol ar gyfer llesiant cymdeithasol ac economaidd, ac eto mae'n parhau i gael ei danbriso ac ni fuddsoddir digon ynddo. Mae gweithwyr gofal cymdeithasol, gofawyr di-dâl pobl anabl, sâl ac oedrannus, gweithwyr gofal plant, a'r rhai sy'n gofalu am blant i gyd yn haeddu gwell. Rydym yn croesawu'r taliad arbennig a roddodd Llywodraeth Cymru i weithwyr gofal cymdeithasol ledled Cymru i gydnabod eu hymroddiad aruthrol wrth ofalu am rai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.<sup>36</sup> Mae gofal yn ymwneud â llawer mwy nag unrhyw wobwr ariannol: mae gwaith gofal am dâl a di-dâl yn beth cymdeithasol hanfodol. Mae'n cyfrannu at ddatblygu galluedd pobl, yn cefnogi plant i ffynnu a dysgu, oedolion i orffwys a bod yn barod am waith am dâl, ac mae'n cefnogi pobl â salwch neu anabledd i fod yn iach ac i gyfrannu at gymdeithas a'r economi.<sup>37</sup>

Mae buddsoddi yn yr economi gofalu yn gam allweddol tuag at gyrraedd ein targedau o ran y newid yn yr hinsawdd, trwy hybu cyflogaeth mewn sectorau sydd eisoes yn rhai carbon isel, megis y gwasanaethau gofal. Mae buddsoddi mewn gofal yn cynhyrchu deirgwaith yn llai o lygredd yn gyffredinol fesul swydd a grëir na'r buddsoddiad cyfatebol yn y diwydiant adeiladu.<sup>38</sup> Mae ail-gydbwysu'r economi tuag at weithgareddau gofalu yn fwy cynaliadwy yn amgylcheddol.

Ledled y byd, mae nifer anghymesur o fenywod a merched yn darparu gwaith gofal am dâl ac am gyflog gwael, yn enwedig y rhai o grwpiau sy'n profi gwahaniaethu ar sail ethnigrwydd, cenedligrwydd ac oedran, yn ogystal â gwahaniaethu ar sail rhyw.<sup>39</sup> Mae hyn oherwydd normau niweidiol sy'n ystyried bod y gwaith hwn yn 'waith menyw', yn ddi-grefft, yn ogystal â rhagdybiaethau ymhlyg bod cyfraniadau menywod o lai o werth i'r economi na

chyfraniadau dynion. Mae gwaith menywod mewn rolau gofal di-dâl yn golygu bod ganddynt lai o amser i fynd ar drywydd gwaith am dâl ac i gamu ymlaen yn eu gyrfa, gan eu gwneud yn fwy tebygol o gael gwaith rhan-amser neu waith ansefydlog, ennill llai, a byw mewn tlodi wrth iddynt fynd yn hŷn. Yn y Deyrnas Unedig, mae menywod yn ymdeol gyda chyfartaledd o £100,000 yn llai yn eu pensiwn na dynion oherwydd cyfrifoldebau gofalu a'r bwch cyflog rhwng y rhywiau.<sup>40</sup>

*'Rwy'n credu dau beth, hynny yw, yn aml iawn mae bod yn ofalwr yn ymwneud â rhywedd. Rwy'n gwybod yn fy sefyllfa fy hun ... yr unigolion a oedd yn gofalu am fy mam oedd fi a'm merched, ac rwy'n credu bod hynny'n gysylltiedig â rhywedd ... rwy'n credu bod yna ddisgwyliad yn bendant ar fenywod y byddant yn gofalu. 'Ymchwil i Ofal Di-dâl, menyw, Cymru'<sup>41</sup>*

Mae COVID-19 wedi tynnu sylw at bwysigrwydd gofal i'n cymdeithas a'n heconomi, gan hefyd ddatgelu'r cysylltiadau dwfn rhwng rhywedd, gofal a thlodi. Mae ymchwil a gomisiynwyd gan Oxfam<sup>42</sup> yn dangos, er bod dynion wedi bod yn treulio mwy o amser yn gofalu am eu plant ac yn gwneud tasgau megis coginio a glanhau, mae menywod wedi bod yn gwneud hynny hefyd, ac maent yn dal i wneud mwy yn gyffredinol. Nododd dros hanner y menywod a arolygwyd mewn pum cyd-destun incwm uchel ac incwm canolig eu bod wedi treulio mwy o oriau yn coginio, golchi, glanhau a gofalu am blant neu aelodau o'r teulu. Mamau sengl, menywod sy'n byw mewn tlodi, a phobl o leiafrifoedd ethnig a hiliol a nododd y cynnydd mwyaf. Nododd tua 43% o'r 3,558 o fenywod a arolygwyd eu bod yn dioddef mwy o orbryder, iselder ysbryd, diffyg gorffwys a chwsg, a salwch corfforol oherwydd y gwaith gofal cynyddol yn sgil y pandemig. Yn y Deyrnas Unedig, mae ymchwil wedi dangos bod nifer anghymesur o fenywod dosbarth gweithiol wedi cael eu rhoi ar ffyrlo, a bod mwy o berygl y bydd eu swyddi'n cael eu dileu o gymharu â dynion a menywod eraill.<sup>43</sup> Mae hyn yn golygu bod yna risg sylweddol y bydd menywod, yn enwedig y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu, yn cael eu gwthio allan o waith teilwng am dâl, ac i mewn i dlodi.

#### **Mae Oxfam Cymru yn galw ar lywodraeth nesaf Cymru i ofalu am bobl a'r blaned trwy wneud y canlynol:**

- Blaenoriaethu buddsoddiad yn y sector gofal iddo fod yn sylfaen carbon isel a chyfiawn o ran y rhywiau i'r economi llesiant, gan roi pobl â chyfrifoldebau gofalu wrth galon yr adferiad<sup>44</sup>, a sicrhau nad oes yr un gofalwr yn cael ei adael mewn tlodi.<sup>45</sup> Rhaid i hyn gynnwys newidiadau i arferion caffael ac i gyfundrefnau arolygu er mwyn sicrhau bod pob gweithiwr yn y sector gofal am dâl yn cael y Cyflog Byw go iawn o leiaf.<sup>46</sup>
- Cydnabod gwerth gofal i'n llesiant cymdeithasol ac economaidd cyfunol trwy ddiwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel ei bod yn cynnwys 'Cymru ofalgar' yn nod llesiant, a monitro cynnydd tuag at y nod hwn trwy ddangosyddion llesiant a cherrig milltir.
- Codi refeniw newydd, er enghraifft, trwy ardoll gofal cymdeithasol yng Nghymru<sup>47</sup>, a defnyddio hwn i roi hwb sylweddol i fuddsoddiad yn y sector gofal er mwyn amddiffyn gweithwyr gofal cyflogedig rhag tlodi, lleddfu pwysau ar ofalwyr di-dâl a chefnogi seilwaith ar gyfer gofalu, gan gynnwys gofal o safon i blant a'r henoed.
- Sicrhau bod Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar Ofalwyr yn canolbwyntio ar ei rôl strategol o ran symud hawliau gofalwyr yn eu blaen a chynllunio gwasanaethau cymorth ar lefel genedlaethol ar gyfer gofalwyr di-dâl.<sup>48</sup> Dylai hyn gynnwys diweddarau mesurau perfformiad<sup>49</sup> i sicrhau bod anghenion llesiant gofalwyr yn cael eu diwallu a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

### 3. Cymru ac iddi Gyfiawnder Hinsoddol

#### Rydym am i Gymru fod yn wlad sy'n rhoi cyfiawnder hinsoddol wrth galon yr adferiad yn sgil COVID-19.

Pobl dlotaf y byd yw'r rhai sy'n cael eu bwrw gyntaf ac yr effeithir arnynt waethaf gan y newid yn yr hinsawdd. Wrth i ni siarad, mae'r bobl dlotaf ar y blaned yn cael eu taro galetaf gan y newid yn yr hinsawdd. Bob dydd mae tlodi yn cael ei waethygu gan effeithiau dinistriol tywydd eithafol. Mae stormydd a sychder yn dinistrio cartrefi, ac yn difetha bywydau a bywoliaethau. Mae trychinebau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd – megis llifogydd, sychder a chorwyntoedd – 20 gwaith yn fwy tebygol o effeithio ar bobl sy'n byw mewn gwledydd sy'n datblygu, na'r rhai ohonom sy'n byw yn y byd diwydiannol.<sup>50</sup> Ynghanol yr argyfyngau iechyd ac economaidd byd-eang, mae'r argyfwng hinsawdd yn parhau i dyfu. Nid yw trychinebau sy'n ganlyniad i dywydd eithafol wedi dod i ben yn ystod pandemig COVID-19; mae seiclun Amphan yn India a Bangladesh a'r tanau gwyllt yn yr Unol Daleithiau yn ein hatgoffa'n rymus iawn fod y byd yn beryglus o agos at fynd y tu hwnt i derfyn 1.5°C Cytundeb Paris.

*Nid yw'r ffaith bod yna gyfyngiadau symud ar y byd i gyd yn golygu bod y newid yn yr hinsawdd a'r batriarchaeth dan gyfyngiadau symud. Nid oes yna gyfyngiadau symud ar batriarchaeth. Ni ellir cyfyngu ar y newid yn yr hinsawdd, Betty Barkha, ymgyrchydd hinsawdd o Latouka ar Ynysoedd Fiji<sup>51</sup>.*

Ym mis Chwefror 2020, yr un gwlypaf a gofnodwyd yng Nghymru erioed, gwelodd y wlad rai o'r llifogydd gwaethaf ar gofnod yn sgil Stormydd Ciara a Dennis a effeithiodd yn uniongyrchol ar fwy na 1,000 o gartrefi a 300 o fusnesau.<sup>52</sup> Mae yna gonsensws gwyddonol bron yn gyffredinol bod newid yn yr hinsawdd yn digwydd – ac roedd 93% o'r ymatebwyr i Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cydnabod hyn.<sup>53</sup> Ym mis Ebrill 2019 cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths AS, argyfwng hinsawdd yng Nghymru.<sup>54</sup>

Er mwyn mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, rhaid i ni fynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Rhwng 1990 a 2015, pan gynyddodd yr allyriadau blynyddol 60% a dyblodd yr allyriadau cronol, amcangyfrifir bod y 10% cyfoethocaf o boblogaeth y byd (tua 630 miliwn o bobl) yn gyfrifol am 52% o'r allyriadau carbon cronol – gan ddisbyddu bron traean (31%) o'r gyllideb carbon byd-eang yn y 25 mlynedd hynny yn unig. Roedd y 50% tlotaf (tua 3.1 biliwn o bobl) yn gyfrifol am 7% yn unig o'r allyriadau cronol ac wedi defnyddio 4% yn unig o'r gyllideb garbon a oedd ar gael.<sup>55</sup> Yn y Deyrnas Unedig, grwpiau incwm is a grwpiau difreintiedig eraill sy'n cyfrannu leiaf at achosi'r newid yn yr hinsawdd, ond nhw sy'n debygol o deimlo'r effeithiau mwyaf negyddol.<sup>56</sup> Mae'r 1% cyfoethocaf o bobl yn y Deyrnas Unedig yn cynhyrchu 11 gwaith yn fwy o allyriadau carbon yr un na rhywun yn hanner tlotaf y boblogaeth.<sup>57</sup> Mae tueddiadau'r lleiafrif cyfoethog i orddefnyddio adnoddau yn gwaethygu'r argyfwng hinsawdd ond eto cymunedau tlawd a phobl ifanc sy'n talu'r pris. Mae defnydd Cymru o adnoddau naturiol ymhell y tu hwnt i'r hyn y gall maint ei phoblogaeth ei gyfiawnhau; y mae 455% yn uwch na'r terfynau diogel ar gyfer defnyddio CO<sub>2</sub>.<sup>58</sup>

Mae buddsoddi yn yr economi gofalu yn gam allweddol tuag at gyrraedd ein targedau o ran newid yn yr hinsawdd, trwy hybu cyflogaeth mewn sectorau sydd eisoes yn rhai carbon isel, megis y gwasanaethau gofal. Mae buddsoddi mewn gofal yn cynhyrchu deirgwaith yn llai o lygredd yn gyffredinol fesul swydd a grëir na'r buddsoddiad cyfatebol yn y diwydiant adeiladu.<sup>59</sup> Mae ail-gydbwysu'r economi tuag at weithgareddau gofalu yn fwy cynaliadwy yn amgylcheddol.

Mae ein system fwyd mewn perygl oherwydd hinsawdd sy'n newid. Mae hefyd yn cyfrannu'n uniongyrchol at y newid yn yr hinsawdd, wrth i amaethyddiaeth gyfrannu tua 12% o gyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru.<sup>60</sup> Yn seiliedig ar ddata'r Deyrnas Unedig, mae allyriadau cynhyrchu bwyd, trafndiaeth a manwerthu yn cyfrif am 5.5% arall.<sup>61</sup> Fodd bynnag, ein tir yw ein hamddiffyniad naturiol mwyaf yn erbyn newid yn yr hinsawdd. Gallai Cymru fod ar flaen y gad o ran y trawsnewid byd-eang i system fwyd sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd a natur trwy greu a gweithredu cynllun sero-net.

Oni bai fod llywodraethau ledled y byd, gan gynnwys Llywodraeth nesaf Cymru, yn blaenoriaethu gweithredu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, bydd cenedlaethau'r dyfodol yn parhau i dalu'r pris trwy fwy o newyn, mwy o beryglon iechyd a thrychinebau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a fydd yn arwain at ddadleoli torfol. Mae'r newid yn yr hinsawdd yn cyfrannu at fyd mwy ansefydlog lle y bydd miliynau yn fwy o bobl yn cael eu dadleoli a'u gorfodi i ffoi o'u cartrefi. Fel cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang, mae'n hanfodol bod Cymru yn gweithredu ar frys ar allyriadau CO<sub>2</sub> tiriogaethol ac allyriadau CO<sub>2</sub> sy'n deillio o ddefnydd.<sup>62</sup>

**Mae Oxfam Cymru yn galw ar lywodraeth nesaf Cymru i ofalu am bobl a'r blaned trwy:**

- Gosod targedau cenedlaethol seiliedig ar wyddoniaeth a thegwch i leihau allyriadau carbon sy'n deillio o ddefnydd yn ogystal ag o gynhyrchu, ac adrodd arnynt mewn modd amserol – o leiaf bob dwy flynedd. Rhaid i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) gael ei diwygio gan reoliad i osod y llwybr hwn yn y gyfraith, ynghyd ag adroddiadau blynyddol i'r Senedd. Bydd hyn yn gofyn am gyrraedd sero-net ymhell cyn 2045.
- Blaenoriaethu buddsoddiad yn y sector gofal iddo fod yn sylfaen carbon isel a chyfiawn o ran y rhywiau i'r economi llesiant, sy'n gosod pobl â chyfrifoldebau gofalu wrth galon yr adferiad.<sup>63</sup>
- Datblygu cynllun erbyn 2022 i ddarparu system fwyd sero-net i sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu hasesu a'u gweithredu'n gyflym i Gymru. Y targed yw i Gymru gael System Fwyd Sero-net erbyn 2035.

#### 4. System Fwyd sy'n Addas ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol

##### Rydym am i Gymru fod yn wlad sydd â system fwyd sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'n awr yn amser hanfodol i adeiladu ar gyfer y dyfodol, wrth i bandemig COVID-19 atgyfnerthu'r gwendidau sy'n bodoli yn ein system fwyd gyfredol. Mae wedi tynnu sylw at y modd y mae yna gysylltiad agos rhwng iechyd natur a dynoliaeth ar raddfa byd-eang. Mae ailadeiladu system fwyd fwy gwydn a chynaliadwy yn rhan hanfodol o'r broses o atal argyfyngau yn y dyfodol, ac mae'n rhan allweddol o'n llwybr tuag at economi llesiant.

*“Mae tlodi yn glefyd arall, mae mor beryglus â'r feirws hwn, ac os bydd pobl yn parhau i aros gartref fel hyn, gallai llawer o deuluoedd farw oherwydd newyn,”* Menyw Affgan, Affganistan<sup>64</sup>.

Mae bwyd yn un o'n hanghenion sylfaenol ac yn gynhwysyn hanfodol ar gyfer bywyd da – a dyna pam ei fod yn cael ei gydnabod yn rhan o'r economi sylfaenol. Fodd bynnag, mae'r ffordd yr ydym yn cynhyrchu ac yn bwyta bwyd ar hyn o bryd yn cyfrannu at ddirywiad bioamrywiaeth a'r newid yn yr hinsawdd, yn achosi problemau iechyd sy'n gysylltiedig â deiet, ac wedi arwain at sefydliadu banciau bwyd a chaledi ariannol i lawer o ffermwyr.

*“Mae'r pandemig hwn wedi taflu goleuni ar y gwahaniaeth y gallwn ei wneud trwy ddod at ein gilydd – rydym wedi gwneud newidiadau enfawr i'r ffordd yr ydym yn byw, yn gweithio ac yn cefnogi ein gilydd. Gyda'n gilydd, gallwn roi diwedd ar anghyfiawnder yr angen am fanciau bwyd. Gallwn adeiladu dyfodol heb newyn.”* Susan Lloyd-Selby, Rheolwr Gweithrediadau Cymru yn Ymddiriedolaeth Trussell.

A ninnau'n rhan o Gynghrair Polisi Bwyd Cymru, credwn y dylai pawb yng Nghymru gael mynediad urddasol at ddigon o fwyd maethlon, wedi'i gynhyrchu'n gynaliadwy, trwy'r amser. Dylem hefyd allu sicrhau incwm teg i ffermwyr a holl weithwyr y sector bwyd. Gall ein system fwyd gyfrannu'n sylweddol at ffyniant cyfunol Cymru pan gaiff ei llywio trwy lens economeg llesiant ac egwyddorion yr economïau cylchol a sylfaenol. Byddai gweledigaeth a rennir ledled POB adran o'r Llywodraeth, ynghyd â rhanddeiliaid system fwyd ehangach, yn sicrhau bod pob agwedd ar y system fwyd yn cael ei hystyried a'i hintegreiddio. Mae hyn yn nod allweddol yn y diffiniad o Amaethecoleg<sup>65</sup> gan Sefydliad Bwyd ac Amaeth (FAO) y Cenhedloedd Unedig, sy'n pwysleisio'r angen am lywodraethu cyfrifol ar raddfeydd gwahanol.

##### **Mae Oxfam Cymru yn galw ar lywodraeth nesaf Cymru i ofalu am bobl a'r blaned trwy wneud y canlynol:**

Yn ystod ei blwyddyn gyntaf wrth y llyw, penodi **Comisiwn System Fwyd** annibynnol, traws-sector ac iddo'r dasg o ddatblygu map ffordd i ddarparu 'System Fwyd Addas ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol'. Dylai'r map ffordd ystyried y blaenoriaethau canlynol:

1. **Bwyd i bawb:** Cymru a fydd y genedl gyntaf i ddileu'r angen am fanciau bwyd erbyn 2025. Mae gan bawb yng Nghymru fynediad at y bwyd y mae ei angen arnynt mewn ffordd urddasol, i fyw bywyd iach.
2. **Bwyd ac iechyd y cyhoedd:** Bydd 75% o'r llyisiau a argymhellir gan Bwyta'n Iach y dylid eu bwyta yn cael eu cynhyrchu'n gynaliadwy yng Nghymru ar gyfer Cymru erbyn 2030.
3. **System fwyd sero-net:** Datblygu cynllun erbyn 2022 i ddarparu system fwyd sero-net i sicrhau asesu cyflym a bod camau gweithredu yn cael eu rhoi ar waith i Gymru. Y targed yw i Gymru gael System Fwyd Sero-net erbyn 2035.
4. **Ffermio ar gyfer natur a'r hinsawdd:** Creu map ffordd erbyn 2022 i fabwysiadu egwyddorion

amaethecolegol ledled y system fwyd gyfan, gan gynnwys cynhyrchu trwy ddulliau amaethecolegol yn unig erbyn 2030 ar bob fferm i atal a gwrthdroi'r broses o golli natur a chynyddu'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd.

5. **Bwyd môr cynaliadwy:** Pennu terfynau dalfa (heb unrhyw oedi pellach) sy'n ei gwneud yn bosibl i stociau pysgod gael eu hadfer a'u cynnal yn uwch na lefelau biomas sy'n cyflawni'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf.
6. **Swyddi a bywoliaethau cynaliadwy yn y sector bwyd:** Bydd pawb sy'n ennill eu bywoliaeth yn y system fwyd yn cael, neu'n cael ei alluogi i gael, o leiaf y cyflog byw neu enillion teg am eu gwaith. Bydd gwaith, boed ar y tir neu ar y môr, yn rhydd o arferion ecsbloetiol, ac yn amrywiol, diddorol a grymusol.

## 5. Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang

### Rydym am i Gymru fod yn wlad sy'n cael effaith gadarnhaol ar y byd.

Mae Cymru'n rhan o gymuned fyd-eang. Calonogol yw gweld uchelgais Cymru i fod yn genedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang yn cael blaenoriaeth yn Strategaeth Ryngwladol i Gymru<sup>66</sup> Llywodraeth Cymru, a Chynlluniau Gweithredu yn cael eu rhoi ar waith i helpu i gyflawni hyn. Mae geiriau beiddgar yn ddechrau, ond mae gennym dipyn o ffordd i fynd yng Nghymru i feithrin dealltwriaeth o sut beth yw cyfrifoldeb byd-eang. Nid yw'n ymwneud â rhyw gamau gweithredu arwynebol yn unig, ond yn hytrach mae'n golygu mynd ati i sicrhau, mewn modd systematig, nad yw'r camau a gymerir yma yng Nghymru yn niweidio'r blaned na phobl yn unrhyw le, a'u bod yn cael effeithiau cadarnhaol lle bo hynny'n bosibl.

Mae Cymru wedi chwarae rhan mewn datblygu rhyngwladol ers blyneddau lawer trwy Raglen Cymru ac Affrica, ac mae ganddi rôl bwysig i'w chwarae wrth ymateb i drychinebau byd-eang. Fodd bynnag, heb unrhyw gynnydd yng nghyllideb rhaglen Cymru ac Affrica dros y degawd diwethaf, mae gwerth ariannol cyfraniad Cymru at ddatblygiad rhyngwladol yn gostwng dros amser. Byddai cynnydd yng nghyllideb Cymru ac Affrica i alluogi grantiau mwy i bartneriaid, a hynny dros gyfnod o dair blynedd, yn caniatáu mwy o gynaliadwyedd ac yn cael mwy o effaith. Wrth i Lywodraeth y Deyrnas Unedig gynllunio i dorri'r gyllideb cymorth 0.7% i 0.5%<sup>67</sup> ar adeg pan fo Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig ar gyfer Cydlynu Materion Dyngarol yn rhagweld y bydd angen cymorth dyngarol ac amddiffyniad ar 235 miliwn o bobl yn 2021, sef y nifer uchaf erioed, (cynnydd o bron 40% ar 2020)<sup>68</sup>, mae'n hanfodol bod Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang yn camu i'r adwy. Mae pobl Cymru wedi ymateb yn hael i apeliadau brys, ac mae llywodraethau olynol yng Nghymru wedi chwarae rhan weithredol trwy feithrin ymwybyddiaeth a chodi arian hanfodol. Rhaid i gefnogaeth Llywodraeth Cymru i Bwyllgor Argyfyngau Cymru er mwyn cydlynu'r ymdrech hon barhau a chael ei chryfhau.

Mae addysg ar draws y cwrs bywyd cyfan yn allweddol i sicrhau bod gan bobl Cymru'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r gwerthoedd y mae eu hangen i fod yn ddinasyddion byd-eang gweithredol. Ni ddylai'r broses o greu'r ymdeimlad hwn o berchnogaeth, cysylltiad, empathi a thosturi gael ei gadael i siawns, ond dylid ei hymgorffori trwy'r system addysg a thu hwnt. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau agwedd sy'n gyfrifol yn fyd-eang ac er mwyn ein llesiant economaidd. Mae Dysgu Byd-eang yn galluogi pobl i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau i wella eu cyflogadwyedd ar gyfer gweithlu Cymru yn y farchnad fyd-eang, ac i ddeall yn well y rôl y gall Cymru ei chwarae wrth fynd i'r afael â phroblemau byd-eang, er enghraifft anghydraddoldeb economaidd, tlodi a'r newid yn yr hinsawdd.

Mae angen gosod disgwyliadau uwch ar fusnesau i fod yn gyflogwyr cyfrifol, yn enwedig yn gyfnewid am yr amrediad o gymorth y maent yn ei gael gan y wladwriaeth, ac wrth gyflawni contractau cyhoeddus. Mae angen i Lywodraeth Cymru ysgogi gweithredu cynaliadwy a moesegol gan fusnesau a gefnogir gan gyrff cyhoeddus, a hynny mewn perthynas â'u gweithgareddau ar lefel ddomestig a rhyngwladol. Er enghraifft, dylem sicrhau, wrth gyrchu cyflenwadau a gwasanaethau, fod cwmnïau, gan gynnwys y rhai sy'n gweithredu'n rhyngwladol, yn cadw at amodau gwaith a chyfraddau cyflog teilwng ac yn gweithredu i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd. Mae'r Contract Economaidd yn ddechrau ond gellir gwneud mwy, er enghraifft trwy hyrwyddo cynhyrchion Masnach Deg neu ymuno â Chymru i ddod yn Genedl Dim Datgoedwigo.<sup>69</sup>

Ar ddiwedd 2019, roedd bron 79.5 miliwn o bobl wedi'u dadleoli'n trwy rym (40% ohonynt yn blant), gan gynnwys bron 26 miliwn o bobl yn byw fel ffoaduriaid.<sup>70</sup> I'r mwyafrif, mae'r sefyllfaoedd y maent yn ffoi rhagddynt yn argyfyngau hirdymor eu hunain heb unrhyw atebion cyflym iddynt. Yn gudd y tu ôl i'r ystadegau hyn y mae'r 45.7 miliwn o bobl sydd wedi ffoi o'u cartrefi ond sy'n parhau wedi'u dadleoli o fewn eu ffiniau eu hunain (er enghraifft y miliynau yn Ne Swdan ac Yemen).

Rydym yn hynod falch o hanes Cymru o ddarparu noddfa i'r rhai mewn angen, bod Llywodraeth Cymru yn dyheu am i Gymru fod yn Genedl Noddfa,<sup>71</sup> a bod pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi croesawu ffoaduriaid trwy gynlluniau adsefydlu Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Rydym yn croesawu safiad dyngarol cadarnhaol Cymru tuag at y rhai sy'n ceisio noddfa. Mae'n hanfodol bod Cymru'n dal ati i chwarae ei rhan.

**Mae Oxfam Cymru yn galw ar lywodraeth nesaf Cymru i ofalu am bobl a'r blaned trwy wneud y canlynol:**

- Cynyddu cyllideb Cymru ac Affrica i sicrhau dyfodol gwell i'r cymunedau tlotaf yn fyd-eang, a buddsoddi ym Mhwylgor Argyfyngau Cymru<sup>72</sup> i gefnogi'r broses o roi cymorth gwell i ymatebion cydgysylltiedig i drychinebau ac argyfyngau.
- Ymgysylltu mewn modd gweithredol ag arbenigedd a gwybodaeth am gymunedau alltud sy'n byw yng Nghymru er mwyn llywio rôl datblygu rhyngwladol Cymru yn well a meithrin partneriaethau cryfach a mwy cyfartal dramor.
- Cynnwys pobl Cymru mewn sgwrs genedlaethol ar *Sut y gall Cymru fod yn gartref i bobl ffyniannus mewn gwlad lewyrchus, gan hefyd barchu llesiant pawb ac iechyd y blaned gyfan?*<sup>73</sup> i ddysgu'r gwersi o COVID-19, llywio gweithredu trawsnewidiol a chynhwysol, a meithrin dinasyddiaeth fyd-eang.
- Cyflwyno Dangosydd Llesiant a charreg filltir i fesur dinasyddiaeth fyd-eang weithredol ledled Cymru, ac ymrwmo i ddarparu cyfleoedd dysgu gydol oes mewn dysgu byd-eang a dinasyddiaeth er mwyn cyrraedd y garreg filltir hon.
- Gosod targedau cenedlaethol seiliedig ar wyddoniaeth a thegwch i leihau allyriadau carbon sy'n deillio o ddefnydd yn ogystal ag o gynhyrchu, ac adrodd arnynt mewn modd amserol – o leiaf bob dwy flynedd.
- Blaenoriaethu hawliau dynol, cydraddoldeb ac asesiadau o effaith amgylcheddol ar gyfer cynlluniau buddsoddi cyfredol a'r rhai sy'n dod i'r amlwg, a buddsoddi mewn hyfforddiant ar rywedd, hawliau dynol a diogelu ar gyfer yr holl staff a chyfranogwyr rhyngwladol yn nirprwyaethau tramor Llywodraeth Cymru.
- Adolygu Cynllun Cyflenwi'r Genedl Noddfa i gynnwys strategaeth ariannu glir, gwaith monitro a fframwaith gwerthuso.
- Ymrwmo i chwarae rhan lawn yng nghynlluniau adsefydlu ffoaduriaid Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ynghyd â chefnogi cyfranogiad awdurdodau lleol Cymru yn y cynlluniau hyn.



**Cydnabyddiaethau:** Ysgrifennwyd y papur hwn gan Hayley Richards. Mae Oxfam yn cydnabod cymorth: Rachel Cable, Tracy Carty, Ieuan Ferrer, Jamie Livingstone, Yasmin Mahboubi, Sam Nadel, Amber Parkes, Anam Parvez Butt.

- 
- <sup>1</sup> Grŵp Banc y Byd (2020) "Reversals of Fortune" <https://openknowledge.worldbank.org/bitstream/handle/10986/34496/9781464816024.pdf>
- <sup>2</sup> Sefydliad Legatum (2020) "Poverty during the Covid-19 crisis" <https://li.com/reports/poverty-during-the-covid-19-crisis/>
- <sup>3</sup> <https://unfccc.int/process-and-meetings/the-paris-agreement/the-paris-agreement>
- <sup>4</sup> Oxfam (2020) "Time to Care" <https://oxfamilibrary.openrepository.com/bitstream/handle/10546/620928/bp-time-to-care-inequality-200120-en.pdf>
- <sup>5</sup> Y Sefydliad Llafur Rhyngwladol (2020) "A gender responsive employment recovery: building back fairer." [https://www.ilo.org/wcmsp5/groups/public/---ed\\_emp/documents/publication/wcms\\_751785.pdf](https://www.ilo.org/wcmsp5/groups/public/---ed_emp/documents/publication/wcms_751785.pdf)
- <sup>6</sup> McKinsey & Company (2020) "Covid-19 and gender equality: countering the regressive effects." <https://www.mckinsey.com/featured-insights/future-of-work/covid-19-and-gender-equality-countering-the-regressive-effects>
- <sup>7</sup> Oxfam (2020) "Power, profits and the pandemic" <https://www.oxfam.org/en/research/power-profits-and-pandemic>
- <sup>8</sup> Yr ONS (2020) "Provisional estimates of income inequality in the UK for the financial year ending 2020" <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/personalandhouseholdfinances/incomeandwealth/bulletins/householdincomeinequalityfinancial/financialyearending2020provisional>
- <sup>9</sup> Sefydliad Joseph Rowntree (2020) "Poverty in Wales 2020" <https://www.jrf.org.uk/report/poverty-wales-2020>
- <sup>10</sup> Prifysgol Caerdydd (2020) "Covid-19 and the Welsh economy: Shutdown sectors and key workers." [https://www.cardiff.ac.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0017/2410343/Covid-19-and-the-Welsh-economy-shutdown-sectors-and-key-workers-briefing-paper.pdf](https://www.cardiff.ac.uk/_data/assets/pdf_file/0017/2410343/Covid-19-and-the-Welsh-economy-shutdown-sectors-and-key-workers-briefing-paper.pdf)
- <sup>11</sup> Oxfam (2020) "The hunger virus: How Covid-19 is fuelling hunger in a hungry world" <https://www.oxfam.org/en/research/hunger-virus-how-covid-19-fuelling-hunger-hungry-world>
- <sup>12</sup> Ymddiriedolaeth Trussell (2020) "Summary findings on the impact of the Covid-19 crisis on food banks" [https://www.trusselltrust.org/wp-content/uploads/sites/2/2020/06/APRIL-Data-briefing\\_external.pdf](https://www.trusselltrust.org/wp-content/uploads/sites/2/2020/06/APRIL-Data-briefing_external.pdf)
- <sup>13</sup> Swyddfa Cydlynu Materion Dyngarol y Cenhedloedd Unedig (2020) "Global Humanitarian Overview 2021" <https://www.unocha.org/global-humanitarian-overview-2021>
- <sup>14</sup> <https://www.gov.uk/government/speeches/official-development-assistance-foreign-secretarys-statement-november-2020>
- <sup>15</sup> <https://covid19.who.int/>
- <sup>16</sup> Y Sefydliad Llafur Rhyngwladol (2020) "Covid-19 and the world of work" [https://www.ilo.org/wcmsp5/groups/public/---dgreports/---dcomm/documents/briefingnote/wcms\\_755910.pdf](https://www.ilo.org/wcmsp5/groups/public/---dgreports/---dcomm/documents/briefingnote/wcms_755910.pdf)
- <sup>17</sup> Oxfam (2020) "Power, profits and the pandemic" <https://www.oxfam.org/en/research/power-profits-and-pandemic>
- <sup>18</sup> Y Sefydliad Dysgu a Gwaith (2020) "Understanding the impact of coronavirus in Wales" <https://learningandwork.org.uk/resources/research-and-reports/understanding-the-potential-impact-of-coronavirus-in-wales/>
- <sup>19</sup> Women's Budget Group (2020) "Crises Collide: Women and Covid-19" <https://wbg.org.uk/analysis/reports/crises-collide-women-and-covid-19/>
- <sup>20</sup> Cyngor Busnes y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy, (2020) "The consequences of COVID-19 for the decade ahead: Vision 2050 issue brief" [https://docs.wbcsd.org/2020/05/WBCSD\\_V2050IB\\_COVID19.pdf](https://docs.wbcsd.org/2020/05/WBCSD_V2050IB_COVID19.pdf)
- <sup>21</sup> Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Adran 4 <http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/section/4/enacted>
- <sup>22</sup> <https://wellbeingeconomy.org/wego>
- <sup>23</sup> Oxfam Cymru (2020) "Toesen Cymru: Fframwaith ar gyfer cynaliadwyedd amgylcheddol a chyfiawnder cymdeithasol" <https://oxfamilibrary.openrepository.com/bitstream/handle/10546/346207/rr-welsh-doughnut-sustainability-social-justice-090315-summ-cy.pdf>
- <sup>24</sup> Senedd (2020) "Amlygu'r materion: anghydraddoldeb a'r pandemig" <https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld13403/cr-ld13403-w.pdf>
- <sup>25</sup> Stratford, B ac O'Neill, D (2020) "The UK's Path to a Doughnut Shaped Recovery" <https://goodlife.leeds.ac.uk/wp-content/uploads/sites/20/2020/11/doughnut-shaped-recovery-report.pdf>
- <sup>26</sup> Doughnut Economic Action Lab (2020) "The Amsterdam City Doughnut" <https://www.kateraworth.com/wp/wp-content/uploads/2020/04/20200406-AMS-portrait-EN-Single-page-web-420x210mm.pdf>
- <sup>27</sup> Women's Budget Group (2020) "Creating a Caring Economy: A call to action." <https://wbg.org.uk/wp-content/uploads/2020/10/WBG-Report-v10.pdf>
- <sup>28</sup> Y Ganolfan Ymchwil i Effeithiolrwydd Cymdeithasol (2020) "Oxfam-DWP Sustainable Livelihoods Approach Project" <https://oxfamapps.org/cymru/wp-content/uploads/2020/11/Oxfam-DWP-SLA-Project-Final-Evaluation-Social-Effectiveness-Research-Centre-Full-Report-2.pdf>
- <sup>29</sup> Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am yr asedau gwahanol a'r dull gweithredu cyffredinol ym mhecyn cymorth Dull Bywoliaethau Cynaliadwy Oxfam Cymru <http://policy-practice.oxfam.org.uk/publications/the-sustainable-livelihoods-approach-toolkit-for-wales-297233>
- <sup>30</sup> Dadansoddiad yn seiliedig ar werthusiad canol tymor 2015 prosiect Adeiladu Bywoliaethau a Chryfhau Cymunedau Oxfam Cymru.
- <sup>31</sup> Wellbeing Economy Alliance (2020) "Measuring the Wellbeing Economy: How to go beyond GDP" <https://wellbeingeconomy.org/wp-content/uploads/Well-BRIEFINGS-Measuring-the-Wellbeing-economy-v6.pdf>
- <sup>32</sup> *ibid.*

33 ibid.

34 Clifton, A. (2020) "Coronavirus: Adult Social Care" Ymchwil y Senedd, Senedd Cymru <https://seneddresearch.blog/2020/05/19/coronavirus-adult-social-care/>

35 Oxfam Cymru, (2020). "Political leaders urged to act as poverty crisis places 'intolerable pressure' on frontline of Coronavirus battle in Wales" <https://oxfamapps.org/cymru/political-leaders-urged-to-act-as-poverty-crisis-places-intolerable-pressure-on-carers-on-frontline-of-coronavirus-battle-in-wales/>

36 <https://llyw.cymru/staff-mewn-cartrefi-gofal-i-gael-ps500-yn-ychwanegol>

37 Coffey, C, Espinoza Revollo, P, Harvey, R, Lawson, M, Parvez Butt, A, Piaget, K, Sarosi, D, a Thekkudan, J (2020). "Time to Care: Unpaid and underpaid care work and the global inequality crisis" Oxfam <https://oxfamilibrary.openrepository.com/bitstream/handle/10546/620928/bp-time-to-care-inequality-200120-en.pdf>

38 Himmelweit, S. a J. De Henau. (2020) "A Care-led recovery from coronavirus" UK Women's Budget Group <https://wbg.org.uk/analysis/reports/a-care-led-recovery-from-coronavirus/>

39 Coffey, C, Espinoza Revollo, P, Harvey, R, Lawson, M, Parvez Butt, A, Piaget, K, Sarosi, D, a Thekkudan, J.(2020) "Time to Care: Unpaid and underpaid care work and the global inequality crisis" Oxfam <https://oxfamilibrary.openrepository.com/bitstream/handle/10546/620928/bp-time-to-care-inequality-200120-en.pdf>

40 Chapman, B (2019) "Women's pensions £100,000 less than men's due to gender pay gap and childcare commitments" *The Independent* <https://www.independent.co.uk/news/business/news/pension-savings-gap-childcare-gender-paygap-women-a9000066.html>

41 Galandini, S a Ferrer, I. (2020) "Make Care Count: Unpaid and Underpaid Care Work Across Britain" Oxfam GB

<https://oxfamilibrary.openrepository.com/bitstream/handle/10546/620980/bn-care-poverty-coronavirus-280420-en.pdf?sequence=1>

42 Yn ôl Oxfam International (2020) mae bron hanner y menywod yn teimlo'n fwy gorbryderus, isel, ynysig, gorbrysur neu sâl oherwydd cynnydd mewn gwaith gofal di-dâl a achoswyd gan y pandemig <https://www.oxfam.org/en/press-releases/close-half-women-are-feeling-more-anxious-depressed-isolated-overworked-or-ill#:~:text=Forty%2Dthree%20percent%20of%20women,coronavirus%20crisis%2C%20said%20Oxfam%20today.>

43 Prifysgol Warwick (2020) "Carrying the work burden of the Covid-19 pandemic: working class women in the UK"

[https://warwick.ac.uk/newsandevents/pressreleases/first\\_results\\_from\\_new\\_study\\_examining\\_the\\_impact\\_of\\_covid-19\\_on\\_working\\_class\\_women\\_in\\_the\\_uk\\_published\\_today1](https://warwick.ac.uk/newsandevents/pressreleases/first_results_from_new_study_examining_the_impact_of_covid-19_on_working_class_women_in_the_uk_published_today1)

44 Women's Budget Group (2020) "A Care-Led Recovery from Coronavirus" <https://wbg.org.uk/analysis/reports/a-care-led-recovery-from-coronavirus/>

45 Oxfam (2020) "Care, poverty & coronavirus" <https://oxfamapps.org/cymru/wp-content/uploads/2020/09/Care-Poverty-and-Coronavirus-in-Wales-ENG.pdf>

46 <https://www.livingwage.org.uk/what-real-living-wage>

47 Holtham, J (2018) "Talu am Ofal Cymdeithasol" <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/talu-am-ofal-cymdeithasol.pdf>

48 Carers Wales (2020) "Track the Act" <https://www.carersuk.org/files/section/6609/carers-wales-track-the-act-briefing-final-version-eng.pdf>

49 Llywodraeth Cymru (2015) "Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant : Cod ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru" <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/cod-ymarfer-mewn-perthynas-a-pherfformiad-a-gwella-gwasanaethau-cymdeithasol-yng-nghymru.pdf>

50 Dywed Oxfam America (2014) peidiwch â diystyru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar y tlawd wrth ddoed â 'thlodi ynni' i ben <http://politicsofpoverty.oxfamamerica.org/2014/03/ending-energy-poverty-shouldnt-disregard-impacts-climate-change-poor/>

51 Barkha, B (2020) "Betty's journey: climate, covid and care" <https://views-voices.oxfam.org.uk/2020/09/bettys-journey-climate-covid-and-care/>

52 Ymchwil y Senedd (2020) "Llifogydd ac erydu arfordirol" <https://senedd.wales/Research%20Documents/20%20-34%20-%20Flooding%20and%20Coastal%20Erosion/2020-34-wel.pdf>

53 Ystadegau ar gyfer Cymru (2019) "Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2018-19 newid yn yr hinsawdd a gweithredu amgylcheddol"

<https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-10/climate-change-environmental-action-national-survey-wales-april-2018-march-2019-827.pdf>

54 <https://llyw.cymru/llywodraeth-cymrun-datgan-ei-bod-yn-argyfwng-ar-yr-hinsawdd>

55 Oxfam (2020) "Confronting carbon inequality" <https://www.oxfam.org/en/research/confronting-carbon-inequality>

56 Sefydliad Joseph Rowntree (2014) "Climate change and social justice: an evidence review" <https://www.jrf.org.uk/report/climate-change-and-social-justice-evidence-review>

57 [https://oxfamapps.org/media/press\\_release/wealthiest-brits-have-a-carbon-footprint-11-times-that-of-someone-in-the-poorest-half-of-society-oxfam/](https://oxfamapps.org/media/press_release/wealthiest-brits-have-a-carbon-footprint-11-times-that-of-someone-in-the-poorest-half-of-society-oxfam/)

58 Oxfam Cymru (2020) "Toesen Cymru: Fframwaith ar gyfer cynaliadwyedd amgylcheddol a chyfiawnder cymdeithasol"

<https://oxfamilibrary.openrepository.com/bitstream/handle/10546/346207/rr-welsh-doughnut-sustainability-social-justice-090315-summary.pdf>

59 Himmelweit, S. a J. De Henau. (2020) "A Care-led recovery from coronavirus" UK Women's Budget Group <https://wbg.org.uk/analysis/reports/a-care-led-recovery-from-coronavirus/>

60 Llywodraeth Cymru (2019) "Amaethyddiaeth: Llwybr allyriadau sector" <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/llwybr-allyriadau-sector-amaethyddiaeth-taflenffeithiau.pdf>

61 Llywodraeth Cymru (2010) "Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru"

<https://businesswales.gov.wales/foodanddrink/sites/foodanddrink/files/documents/Bwyd%20i%20Gymru%20Bwyd%20o%20Gymru.pdf>

62 Mae yna ddau dull ar gyfer mesur ein defnydd o CO<sub>2</sub>. Gellir mesur allyriadau naill ai ar sail allyriadau tiriogaethol neu allyriadau sy'n deillio o ddefnydd (ôl troed). Allyriadau tiriogaethol yw'r rhai sy'n ymwneud â'r CO<sub>2</sub> a gynhyrchir yng Nghymru yn unig. Mae allyriadau sy'n deillio o ddefnydd yn defnyddio dull ehangach, ac yn cynnwys amcangyfrifon o'r CO<sub>2</sub> sydd wedi'i ymgorffori yn y nwyddau a'r gwasanaethau yr ydym yn eu mewnforio.

---

<sup>63</sup> Women's Budget Group (2020) "A Care-Led Recovery from Coronavirus" <https://wbg.org.uk/analysis/reports/a-care-led-recovery-from-coronavirus/>

<sup>64</sup> Oxfam (2020) "The hunger virus: How Covid-19 is fuelling hunger in a hungry world" <https://www.oxfam.org/en/research/hunger-virus-how-covid-19-fuelling-hunger-hungry-world>

<sup>65</sup> Sefydliad Bwyd ac Amaeth y Cenhedloedd Unedig "The 10 elements of agroecology: Guiding the transition to sustainable food and agricultural systems" <http://www.fao.org/3/i9037en/i9037en.pdf>

<sup>66</sup> Llywodraeth Cymru (2020) "Strategaeth Ryngwladol i Gymru" [Strategaeth ryngwladol i Gymru](#)

<sup>67</sup> <https://www.gov.uk/government/speeches/official-development-assistance-foreign-secretarys-statement-november-2020>

<sup>68</sup> Swyddfa Cydlynu Materion Dyngarol y Cenhedloedd Unedig (2020) "Global Humanitarian Overview 2021" <https://www.unocha.org/global-humanitarian-overview-2021>

<sup>69</sup> <https://sizeofwales.org.uk/cy/gwahoddiad-sut-y-gall-cymru-ddod-yn-genedl-dim-datgoedwigo/>

<sup>70</sup> Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid (UNHCR) (2020) "Facts and Figures about Refugees"

<https://www.unhcr.org/uk/figures-at-a-glance.html>

<sup>71</sup> Llywodraeth Cymru (2019) "Cenedl Noddfa: Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches"

[https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cenedl-noddfa-cynllun-ffoaduriaid-a-cheiswyr-lloches\\_1.pdf](https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cenedl-noddfa-cynllun-ffoaduriaid-a-cheiswyr-lloches_1.pdf)

<sup>72</sup> Mae Pwyllgor Argyfyngau Cymru yn cydlyn ymatebion i argyfyngau dyngarol, a hynny dan gadeiryddiaeth Oxfam Cymru ar hyn o bryd.

<sup>73</sup> Doughnut Economic Action Lab (2020) "The Amsterdam City Doughnut" <https://www.kateraworth.com/wp/wp-content/uploads/2020/04/20200406-AMS-portrait-EN-Single-page-web-420x210mm.pdf>

Mae Oxfam Cymru yn gweithio gydag eraill yng Nghymru i ddod o hyd i atebion parhaol i oresgyn tldi a dioddefaint. Rydym yn lleisio ein barn ar y materion pwysig sy'n cadw pobl yn dlawd, er enghraifft anghydraddoldeb, gwahaniaethu yn erbyn menywod, a newid yn yr hinsawdd. Credwn ei bod yn bosibl cyd-fyw mewn byd tecach. Ni wnawn fyw gydag anghyfiawnder tldi.

Mae Oxfam Cymru yn rhan o Oxfam GB, sy'n elusen gofrestrdedig yng Nghymru a Lloegr (rhif 202918) ac yn yr Alban (SCO 039042), ac yn aelod o Oxfam International.

Mae'r wybodaeth sydd yn y ddogfen hon yn gywir ar adeg ei chyhoeddi.